



**Hydref 2021**  
Autumn 2021


Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor

Saint Deiniol's  
Cathedral  
*in Bangor*



# Llythyr oddi wrth yr Is-Ddeon

# A letter from the Sub-Dean



## Gwylion

**R**wy'n amau y bydd bron i bob un ohonom, ar ryw adeg dros y deunaw mis diwethaf, wedi teimlo fel pe baem wedi dadfeilio'n ôl at yr hanfodion. Bu i'r pandemig a'i heriau wthio o'r neilltu gymaint o'r hyn sydd fel arfer yn ein cysuro a'n llawni. Am gyfnod, dim ond yr hanfodion fu yno i'n cynnal.

Dyweddodd yr Apostol Paul, wrth ysgrifennu at y Corinthiaid, mai dim ond tri pheth sy'n weddill pan ddychwelwn ni at ein hanfodion, tri pheth yn unig sy'n wirioneddol o bwys – ffydd, gobaith a chariad.

Yn y Weddi Gasgl ar gyfer Gŵyl Deiniol Sant yn *Llyfr Gweddi Gyffredin* yr Eglwys yng Nghymru, disgrifir y gymuned a sefydlodd Deiniol yma ym Mangor bron i fileniwm a hanner yn ôl fel cymuned lawn ffydd, gobaith a chariad. Daw'r Weddi Gasgl i ben trwy ein galw ninnau i

I suspect that there will have been a moment for almost all of us at some stage over the past eighteen months when it will have felt as though we have been taken back to essentials. The pandemic and its challenges removed so much of what gives comfort, life and joy. For a time, only the fundamentals will have been there to sustain us.

The Apostle Paul, writing to the Corinthians, said that, at the end of the day, when we're taken back to our essentials, only three things remain, only three things matter – faith, hope and love.

In the Collect for Saint Deiniol in the Church in Wales's *Book of Common Prayer*, the community that Deiniol founded here in Bangor almost a millennium and a half ago is described as being a place of faith, hope and love. The collect ends by calling us to

adeiladu cymuned yn ein dyddiau ni â'i llond o'r un rhinweddau gwerthfawr.

build up a community in our day marked by the same precious virtues.

**W**rth inni gymryd camau newydd fel cymuned y Gadeirlan ac fel pobl Bro Deiniol, rwyf am ddefnyddio'r un tri rhinwedd hynny – y tri disgrifiad cryno hynny o'r bywyd Cristnogol – wrth sôn am ein gweledigaeth am y misoedd a'r blynnyddoedd a ddaw, gan osod ffydd, gobaith a chariad yn ein cyd-destun ni.

Bydd yna lawer o bethau a fedr dynnu'n sylw oddi wrth y weledigaeth hon, ond credaf fod yn rhaid i ni ganolbwyntio y gyfran orau o'n sylw ar yr hanfodion hyn.

## Ffydd

Ffydd, i mi, yw'r cyfarfyddiad gweddnewidiol â dyfnder ac agosatrwydd Duw yng Nghrist. Un o'r pethau mwyaf gwerthfawr y gallwn ei gynnig i'r byd yw'r cyfle i ganfod Duw mewn ddefodau cysegredig ac mewn gofod cysegredig.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni flaenoriaethu ansawdd yr addoliad a gynigir yn y Gadeirlan. Rhaid inni gynnig ein gorau mewn addoliad, oherwydd fe'i cynigir ei gogoniant Duw. Ac mae'n rhaid i ni gynnig ein gorau mewn

**A**s we enter a new stage as a Cathedral community and as the people of Bro Deiniol, I want to use those same three virtues – those three descriptions of the Christian life in a nutshell – to talk about our vision for the months and years ahead, setting faith, hope and love in our context here.

There will be many things that risk drawing our gaze from this vision, but I believe that we must focus the lion's share of our attention on these fundamentals.

## Faith

For me, faith means life-changing encounter with the depth and nearness of God in Christ. One of the most precious things we can offer to the world is the opportunity to encounter God through sacred rites and sacred space.

This means that we must prioritise the quality of worship offered at the Cathedral. We must offer our best in worship, for it is offered to God's glory. And we must offer of our best in worship because worship form

addoliad oherwydd bod addoli yn ein ffurffio a'n trawsnewid, a phawb sy'n addoli ochr yn ochr â ni – y "ffyddloniaid" a'r "ymwelwyr", y Cymry Cymraeg a'r siaradwyr Saesneg, y rhai sy'n gyfarwydd â'n haddoliad a'r rhai ddaw ato o'r newydd. Mae llawer i'w wneud – yn gerddorol, yn litwrgaidd, ac o ran ein dodrefn a'n hurddwisgoedd – i sicrhau ein bod yn gallu cynnig addoliad o safon yn gyson.

Mae sancteiddrwydd hyfryd adeilad y Gadeirlan hefyd yn mynnu ein sylw. Ryw'n rhannu mwy isod am y gwaith iechyd a diogelwch brys a'r gwaith strwythurol ac adfer pwysig sydd ei angen dros y misoedd nesaf. Bydd yr atgyweiriadau hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer prosiect mwy i warchod ac adnewyddu'r Gadeirlan. Byddaf am inni fyfyr mwy ar gynlluniau tymor byr a thymor hir ar gyfer adeilad yr Gadeirlan dros yr wythnosau nesaf. Ond yn ddi-os nid cynnal a chadw er mwyn cadwraeth yn unig fydd hyn – ond ymdrech i ddiogelu a darparu gofod cysegredig lle gellir adnabod dyfnder ac agosatrwydd Duw.

## Gobaith

Mae gobaith yn cyd-gerdded â ni ar bererindod bywyd. Gobaith yw'r fraich yn ein braich ninnau, y llaw ar yr ysgwydd mewn cyfnod o angen. Down o hyd i obaith yn aml yng nghymorth ac anogaeth

and transform us, and all those who worship alongside us – "regulars" and "visitors", Welsh-speakers and English-speakers, those familiar with our worship and those coming to it anew. There is much to be done – musically, liturgically, and in terms of our furnishings and vestments – to ensure that we are able to offer consistently transforming worship.

The beautiful holiness of the Cathedral building also demands our attention. I write more below about the urgent health and safety work and the immediate structural and restoration work that is needed over coming months. These repairs will pave the way for a bigger project to conserve and recondition the Cathedral. I will want us to reflect more on short-term and long-term plans for the Cathedral building over coming weeks. But none of this is maintenance for the sake of conservation alone – it is to provide a sacred space where God's depth and nearness can be known.

## Hope

Hope accompanies us on life pilgrimage. Hope is arm in our arm, the hand on the shoulder in a time of need. We'll often find hope in and through another's help and encouragement. Hope

rhywun arall. Gobaith yw cwmni Crist ar y ffordd, yn ein galw 'mlaen.

Rhaid i'r croeso a gynigiwn i bererinion, ymwelwyr a ymdrowyr yn y Gadeirlan fod yn groeso llawn gobaith. Mae'n hyfryd ein bod yn fuan am fedru agor drysau'r Gadeirlan chwe diwrnod yr wythnos, a chynnal addoliad dyddiol unwaith yn rhagor. Rhaid i ansawdd y croeso a gynigiwn arwain y rhai ddaw dros ein trothwy i adnabod presenoldeb Crist a'r gobaith a ddaw yn ei sgil. Bydd gennym adnoddau ychwanegol, gyda chymorth yr esgobaeth, dros fisoeedd i ddod, i allu adrodd straeon llawn gobaith.

Yn fwy heriol, mae angen inni estyn gobaith Crist i'r rhai na fyddant byth yn croesi'n trothwy fel arall. Ein gweinidogaeth i fyfyrwyr, i ysgolion, i deuluoedd ifanc, i blant a phobl ifanc, i'r rhai sy'n partio ym Mangor ar nos Sadwrn – rhaid i'r weinidogaeth hon fod yn rhan o rannu gobaith Crist hefyd. Mae'n ddyletswydd arnom ni, sydd wedi adnabod gobaith Crist yn ein bywydau, i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r genhedlaeth nesaf. Ryw'n falch y bydd hyn yn ganolbwyt i'n gwaith dros y mis sydd i ddod, ac y gallai arwain at ddatblygiadau newydd ym Mhenrhosgarnedd.

is Christ's company on the way, beckoning us on.

The welcome that we offer to pilgrims, visitors and bystanders at the Cathedral must be a hope-filled welcome. It's wonderful that we are soon going to be able to open the Cathedral's doors six days a week, and to hold daily worship again. The quality of the welcome that we offer needs to be such that it leads those who cross our threshold to know Christ's presence and the hope that he brings. We will have additional resources, with help from the diocese, over months ahead, to be able to tell hope-filled stories.

More challengingly, we need to extend Christ's hope to those who will never otherwise cross our threshold. Our ministry to students, to schools, to young families, to children and young people, to those partying in Bangor on a Saturday night – this ministry must be a sharing of Christ's hope, too. We, who have known Christ's hope in our lives, have a duty to pass on this knowledge to the next generation. I am glad that this will be a focus of our work over the month ahead, and that it may lead to new developments in Penrhosgarnedd.

## Cariad

Nid rhywbeth i'w gynilo yw cariad. Mae cariad i'w rannu; dylai orlifo o honom fel y bu i gariad Duw orlifo er ein mwyn yng Nghrist. Ein galwedigaeth yw byw ein bywyd Cristnogol dros eraill, gan roi ein hunain yn llwyr iddynt, gan ein bod wedi ein creu i garu'n gilydd.

Rhaid i'n cariad at ein dinas fod yn bendant ac yn gywir. Mae Bangor wedi cael clec gan y pandemig – mae taith i lawr y Stryd Fawr yn ddigon i gadarnhau hynny. Ond mae yna arwyddion o fywyd newydd hefyd - ac mae cariad y Gadeirlan a Bro Deiniol tuag at ein dinas yn golygu bod yn rhaid i ni fod wrth wraidd datblygiadau a mentrau newydd, yn ogystal â chynnal y weinidogaeth wych yr ydym eisoes yn ei chynnig trwy'n Banc Bwyd a'r bartneriaeth gymunedol a welir yn y defnydd o Eglwys y Groes.

Fel eglwys sylfaenydd Esgobaeth Bangor, rhaid bod ein cariad, ein gofal a'n sylw hefyd yn cael ei dywallt ar ein hesgobaeth, o Amlwch i Aberdyfi, o Landudno i Lanidloes. Rydym yn derbyn cefnogaeth hael gan yr esgobaeth - ac mae'n ofynnol inni ad-dalu'r gefnogaeth honno trwy ein gweddi feunyddiol dros yr esgobaeth, a thrwy rannu ein cyfoeth a'n hadnoddau. Ym mhopeth a wnawn ym Mangor, byddwn yn gofyn i ni'n hunain: sut y gall hyn gyfoethogi i eraill ledled ein hesgobaeth.

## Love

Love isn't something one hoards or rations. It's shared and outpoured, as God's love was shared and outpoured for us in Christ. Our Christian life is best lived in service of others, as we love one another.

Our love for our city must be concrete and true. Bangor will have been hit hard by the pandemic – a walk down the High Street is enough to confirm that. But there are also signs of new life – and the Cathedral and Bro Deiniol's love for our city means that we must be at the heart of new developments and initiatives, as well as sustaining, though our Foodbank and the community partnership use of Eglwys y Groes, some of the fantastic ministry we already offer.

As the founder's church of the Diocese of Bangor, our love, care and attention must also be lavished on our diocese, from Amlwch to Aberdyfi, from Llandudno to Llanidloes. We receive generous support from the diocese - and it is support that we must repay through our daily prayer for the diocese, and through the sharing of our riches and resources. In all that we do in Bangor, we will ask ourselves: how can this be enriching for others across our diocese.

**A**r esgyrn y weledigaeth hon byddwn yn adeiladu ein bywyd ar y cyd dros y misoedd i ddod. Gadewch imi ddiweddu'r llythyr hwn trwy ddweud rhywbeth am y gwerthoedd a ddylai nodweddu ein bywyd ar y cyd fel cymuned wrth gyflawni'r weledigaeth hon.

## Fydd a gweddi

Bydd ein hymdrehion oll yn ddiwrth os nad yw gweddi yn sail iddynt. Ymrwymwch i'n gwasanaethau ar y Sul. Ceisiwch ddod i wasanaeth yn ystod yr wythnos. Gweddiwch gartref, dros fywyd y Gadeirlan a Bro Deiniol, ac throsoch chi'ch hunain, y bydded i ffydd, gobaith a chariad fod wrth graidd ein bywydau.

## Gobaith a chydweithio

Rwyf eisoes wedi cyn argraff ar yr ymdrech gyfunol y mae'n ei gymryd i gynnali bywyd y Gadeirlan a Bro Deiniol. Mae gen i gydweithwyr rhyfeddol yma – clergion, cynulleidfaeodd ac eraill sy'n rhannu yn y weinidogaeth. Ystyriwch a oes mwy y gallwch ei gynnig. A gweddiwch am ysbryd o gydweithredu a cholegoldeb ym mhopeth a wnawn.

## Cariad a digonedd

Nid peth duwiol ydi prinder. Dro ar ôl tro yn yr Ysgrythur Sanctaidd, gwelwn Dduw yn afradlon ac yn doreithiog. Mae cariad Duw yn gorlifo'n rhwydd

**O**n the bones of this vision we will build up our common life over the months to come. Let me end this letter by saying something about the values that need to mark our common life as a community in pursuit of this vision.

## Faith and prayer

Our striving will be useless if it is not underpinned by prayer. Please commit yourself to our Sunday services. Please try to attend a weekday service. Please pray at home, for the life of the Cathedral and Bro Deiniol, and for yourself, that God's ways of faith, hope and love may be more alive in our lives.

## Hope and collaboration

I have already been struck by the team effort that it takes to sustain the life of the Cathedral and Bro Deiniol. I have wonderful colleagues here – clergy, congregants and others who share in ministry. Please consider whether there is more that you can offer. And please pray for a spirit of collaboration and collegiality in all that we do.

## Love and abundance

Scarcity is not godly. Time and again in Holy Scripture, we see God being prodigal, plentiful and abundant. Love overflows. That abundance must also be

ac yn hael. Rhaid i'r digonedd hwnnw hefyd fod wrth graidd ein bywyd ni ar y cyd. Mae'n hawdd weithiau bod yn ddigalon, neu'n ddi-hid, neu fodloni â'r ddiggrwg didda. Gadewch inni wrthsefyll y demtasiwn honno. Gorfoleddwn yn y rhoddion a gawn o haelioni Duw, yn yr addewid oesol am bopeth a fydd, ac yn ein tynged ni fel plant y goleuni, wedi ein hachub a'n hennill gan gariad toreithiog Duw.


Mae gennym lawer i ddiolch amdano yng Nghadeirlan Deiniol Sant a Bro Deiniol, a llawer i'w wneud. Gadewch inni gamu ymlaen mewn ffydd, gobaith a chariad.

Gan eich sicrhau o'm gweddïau drosoch chi, a gan ofyn am eich gweddïau dros of finnau a'm cydweithwyr fan hyn,

a mark of our life together. It's easy sometimes to be miserable, or mediocre, or to make do. Let us resist that temptation. Let us rejoice in the gifts we have been so generously given, in the promise of all that will be, in and our destiny as children of light, redeemed by God's abundant love.

We have much to give thanks for in Saint Deiniol's Cathedral and Bro Deiniol, and much to do. Let us step forward in faith, hope and love.


With assurance of my prayers for you, and asking for your prayers for me and my colleagues in this place,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Gwilym Jones, Canon".

**Canon Siôn Rhys Evans**  
Is-Ddeon | Sub Dean

# *Hysbys ac apeliadau*

# *Notices and appeals*



(1)

## Rhagofalon covid

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru a chanllawiau'r Eglwys yng Nghymru, rydym wedi gallu adolygu asesiad risg Cofid y Gadeirlan. Mae'n newydd da ein bod wedi gallu lleddfu neu gael gwared ar lawer o'r rhagofalon blaenorol. Mae Cofid yn parhau i fod yn bryder mawr, a rhaid i rai rhagofalon aros. Efallai hefyd y bydd yn rhaid ailgyflwyno rhai rhagofalon, a byddwn yn adolygu'r sefyllfa'n gyson. Fodd bynnag, am y tro, gallwn lawenhau fod peth lleddfu, tra'n cadw at bedwar rhagofal allweddol:

1. Mae'n ofyniad cyfreithiol gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r gofyniad yn gymwys i bawb 11 oed a throsodd onibai bod gennych reswm.
2. Rydyn ni wrth ein bodd bod pawb bellach yn cael canu, ond gofynnir i bawb heblaw'r Côr ganu y tu ôl i'w gorchudd wyneb.

## Covid precautions

In line with Welsh Government regulations and Church in Wales guidance, we have been able to review the Cathedral's Covid risk assessment. It is good news that we have been able to ease or remove many of the previous precautions. Covid remains a great concern, and some precautions must remain. It may also be that some precautions will have to be reintroduced, and we will keep the situation under review. However, for the time being, we can rejoice in some easing, while maintaining four key precautions:

1. It is a legal requirement to wear a face covering in the Cathedral. The requirement applies to everyone aged 11 and over, unless you have a reason.
2. We are delighted that all are now permitted to sing, but we ask that all except the Choir sing behind their face covering.



3. Fe’ch gwahoddir i ddarparu manylion Profi Olrhain Amddiffyn. Ceir codau QR ger y drysau.
4. Byddwch yn ystyriol a pharchus tuag at eraill, gan gadw pellter priodol. Mae'r seddi yn yr eiliau yn cynnig mwy o le i ymbellhau.
3. You are invited to provide Test, Trace, Protect details by completing a form or scanning a QR code near the doorways.
4. Please be mindful and respectful of others, maintaining an appropriate distance. The seating in the aisles provides space for greater distancing.

## (2) Addoliad dydd Sul

O ddydd Sul 3 Hydref, a chydol Hydref a Thachwedd, bydd ein patrwm addoli yng Nghadeirlan Deiniol Sant yn cynnwys dathliad o'r Cymun Bendigaid am 8.15am (yn dawel yn y Seintwar; gwasanaeth Saesneg), dathliad o'r Cymun Bendigaid ar Gân am 9.15am (yn llawen, yn lliwgar ac yn gerddorol yng Nghorff yr Eglwys; gwasanaeth Cymraeg), a dathliad o'r Choral Holy Eucharist am 11am (eto, yn llawen, yn lliwgar ac yng Nghorff yr Eglwys; gwasanaeth Saesneg). Caiff paned ei weini rhwng y Cymun 9.15am ac 11am - arhoswch ar ôl y Cymun 9.15am, neu dewch yn gynnar ar gyfer y Cymun 11am; bydd diodydd oer yn cael eu gweini ar ôl y Cymun 11am. Bydd Hydref a Thachwedd yn gyfnod o ailgychwyn ein bywyd addoli cyfoethog heb ddychwelyd at yr union beth oedd. Mae'n beth da, er enghraift, i ni allu neilltuo mwy o adnoddau cerddorol i alluogi'r Cymun 9.15am i fod

## Sunday worship

From Sunday 3 October, and for the duration of October and November, our pattern of worship at Saint Deiniol's Cathedral will consist of a celebration of the Holy Eucharist at 8.15am (quietly in the Presbytery; an English-language service), a celebration of the Cymun Bendigaid ar Gân at 9.15am (joyfully, colourfully and musically in the Nave; a Welsh-language service), and a celebration of the Choral Holy Eucharist at 11am (again, joyfully, colourfully and musically in the Nave; an English-language service). Coffee and tea will be served between the 9.15am and 11am Eucharist – please stay after the 9.15am Eucharist, or come early for the 11am Eucharist; cold drinks will be served after the 11am Eucharist. October and November will be a time of recommencing our rich worshipping life without returning to exactly what was. It is particularly welcome that

yn Gymun Bendigaid ar Gân. Wrth i ni ddechrau cadw'r Adfent ddiwedd mis Tachwedd, bydd ein haddoliad yn parhau i ddatblygu a dyfnhau. Nid ydym yn ail-ddechrau addoli ar y Sul yn Eglwys y Groes, Maesgeirchen ac Eglwys San Pedr, Penrhosgarnedd ar hyn o bryd. Mae ailgyflwyno patrwm llawn o addoliad corfforol yn Gadeirlan yn golygu bod y gwasanaeth Zoom byw fore Sul yn cael ei atal o ddydd Sul 26 September. Bydd Cymun Bendigaid ar Gân a'r Choral Holy Eucharist yn parhau i gael eu ffrydio'n fyw, ac mae tîm y Gadeirlan yn gweithio'n galed i gadw mewn cysylltiad ag unrhyw un sy'n methu ag ailymuno â ni yn gorfforol.

we are able to dedicate greater musical resources to enable the 9.15am Eucharist to be a Cymun Bendigaid ar Gân. As we commence our keeping of Advent at the very end of November, our worship will be able to continue to develop and deepen. We are not recommencing Sunday worship at Eglwys y Groes, Maesgeirchen and St Peter's Church, Penrhosgarnedd at this time. Recommencing a full pattern of in-person worship at the Cathedral means that the live Sunday morning Zoom service is being suspended after Sunday 26 September. The Cymun Bendigaid ar Gân and the Choral Holy Eucharist will continue to be live-streamed, and the Cathedral team is working hard to keep in touch with any who are unable yet to rejoin us in person.

### (3)

### Dyddiau'r wythnos

O ddydd Llun 4 Hydref, a chydol Hydref a Thachwedd, ein nod yw medru agor y Gadeirlan chwe diwrnod yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 11am a 3pm. Mae ein dyled yn fawr i'r stiwardiaid a'r caplaniaid a fydd yn galluogi hyn i ddigwydd. Ar chwe diwrnod yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, bydd y Cymun Bendigaid hefyd yn cael ei ddathlu (yn syml, yn gyhoeddus yng Nghorff yr Eglwys; gwasanaeth dwyieithog) am 12.30pm. Cefnogwch yr addoliad dyddiol hwn gyda'ch presenoldeb lle bo hynny'n bosibl.

### Weekdays

From Monday 4 October, and for the duration of October and November, our aim is to be able to open the Cathedral six days a week, Monday to Saturday, from 11am until 3pm. We owe a debt of gratitude to the stewards and chaplains who will enable this to take place. On six days a week, Monday to Saturday, the Holy Eucharist will also be celebrated (simply, publicly in the Nave; a bilingual service) at 12.30pm. Please support this daily act of worship with your presence where possible.

## (4)

### Plant a theuluoedd ifanc ar y Sul

Fel rhan o ddatblygu a dyfnhau ein croeso i blant, pobl ifanc a theuluoedd byddwn yn darparu gweithgareddau a chrefftau yn ystod Cymun Bendigaid ar Gân a'r Choral Holy Eucharist bob dydd Sul. Bydd hyn yn digwydd yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed.

Bydd y crefftau a'r gweithgareddau bob wythnos yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymneud â thema'r Cymun ei hun. Bydd y gweithgareddau yr un peth ar gyfer y ddau wasanaeth.

Bydd y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod yn rhydd trwy gydol y Cymun, gan eu galluogi i gymryd rhan hefyd mewn rhannau o'r Cymun pe dymunent. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd ar y diwrnod wedi'i wneud. Bydd angen i riant neu warcheidwad lenwi ffurflen gofrestru syml ar gyfer pob plentyn.

Mae'n newyddion da iawn ein bod yn gallu cynnig y gwelliant hwn i'n gweinidogaeth gyda theuluoedd

### Children and young families on Sunday

As part of developing and deepening our welcome to children, young people and families we will be providing activities and crafts during the Cymun Bendigaid ar Gân and the Choral Holy Eucharist every Sunday.

This will take place in the Lady Chapel, for any children up to the age of 11. The crafts and activities each week will be varied, with at least one relating to the theme of the Eucharist itself. The activities will be the same for the two services.

This space will be staffed by responsible adults, and children over the age of 5 will be able to come and go freely throughout the Eucharist, enabling them to also engage in parts of the Eucharist should they wish to. Children will remain the responsibility of their parents or guardians at all times. Children who are aged 4 and under should, in the first instance, be accompanied by a parent or guardian unless a prior arrangement with those on duty on the day has been made. A simple registration form for each child will need to be completed by a parent or guardian.

It is very good news that we are able to offer this enhancement of our ministry with families as a

fel cam cyntaf wrth ddatblygu ein gwaith a'n croeso yn y maes hwn.

first step in developing our work and welcome in this area.

## (5)

### Eglwys y Groes a Sant Pedr

Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr y cynulleidfaedd yn Eglwys y Groes, Maesgeirchen ac Eglwys Sant Pedr, Penrhosgarnedd i ystyried dyfodol ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth yn yr eglwysi a'r cymunedau hynny. Cynhaliwch gynulleidfaedd Eglwys y Groes a Sant Pedr yn eich gweddïau. Mae'n dda bod croeso cynnes yn cael ei estyn yn y Gadeirlan i bawb o bob cwr o'r ddinas a thu hwnt, a'n gobaith yw y bydd pawb yn teimlo'n gartrefol o fewn addoliad a bywyd ar y cyd y Gadeirlan wrth i drafodaethau eraill barhau.

### Eglwys y Groes & St Peter's

Meetings are taking place with representatives of the congregations at Eglwys y Groes, Maesgeirchen and St Peter's Church, Penrhosgarnedd to consider the future of our ministry and mission in those churches and communities. Please hold the congregations of Eglwys y Groes and St Peter's in your prayers. It is good that a warm welcome is extended at the Cathedral to all from across the city and beyond, and our hope is that all will feel at home within the Cathedral's worship and common life as other conversations continue.

## (6)

### Apeliadau

**Mae yna chwe maes lle byddai croeso mawr i'ch cefnogaeth a'ch cymorth ymarferol ar hyn o bryd:**

### Appeals

**There are six areas in which your support and practical assistance would be very welcome at this time:**

**S**tewardiaid | Mae agor ein drysau chwe diwrnod yr wythnos yn un o weinidogaethau hanfodol y Gadeirlan. Mae'n hyfryd ein bod yn anelu at agor chwe diwrnod yr wythnos, 11 am-3pm, o ddechrau mis Hydref. Mae ein stiwardiaid gwirfoddol gwych, sy'n gweithio shifft dwy awr (11 am-1pm neu 1 pm-3pm) yn gwneud hyn yn bosibl. Os hoffech chi ymuno â'r

**S**tewards | Opening our doors six days a week is a vital and life-giving ministry of the Cathedral. It is wonderful that we are aiming to open six days a week, 11am-3pm, from early October. Our wonderful volunteer stewards, working a two-hour shift (11am-1pm or 1pm-3pm) make this possible. If you would like to join the stewarding team, please speak to Jane Coutts or

tîm stiwardio, siaradwch â Jane Coutts neu Canon Tracy Jones ([tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk](mailto:tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk)).

**C**oryddion | Mae ein Cyfarwyddwr Cerdd yn gweithio'n galed i recriwtio Ysgolheigion Corawl i boblogi "rhes gefn" Côr Cadeirlan Deiniol Sant. Yr her nesaf fydd ail-adeiladu'r rhesi blaen. Mae plant y côr yn derbyn addysg gerddorol o'r radd flaenaf, a byddant yn cymryd rhan mewn rhaglen gyffrous o gerddoriaeth, perfformiadau a gwyliau. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un a fyddai â diddordeb, siaradwch â'r Cyfarwyddwr Cerdd ([joe.cooper@eglwysyngnghymru.org.uk](mailto:joe.cooper@eglwysyngnghymru.org.uk)).

**T**îm gweinidogaeth teulu | Mae'n dda bod Naomi Wood wedi ymuno â thîm y Gadeirlan i atgyfnherthu ein gweinidogaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Ffocws cychwynnol y weinidogaeth hon yw ystod o weithgareddau a chrefftau i blant yn ystod Cymun Bendigaid ar Gân a'r Choral Holy Eucharist bob dydd Sul; ond rydym yn gobeithio ehangu'r weinidogaeth hon i gynnwys ein hysgolion a digwyddiadau eraill yn ystod yr wythnos. Os hoffech chi ymuno â'r tîm o bobl yn y maes pwysig hwn, siaradwch â Naomi Wood ([naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk](mailto:naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk)).

Canon Tracy Jones ([tracyjones@churchinwales.org.uk](mailto:tracyjones@churchinwales.org.uk)).

**C**horisters | Our Director of Music is working hard to recruit Choral Scholars to populate the "back row" of the Cathedral Choir. The next challenge will be to build up the front rows. The children of the choir receive a first-class musical education, and will be participants in an exciting programme of music, performances and holidays. If you know of any who would be interested, please speak to the Director of Music ([joe.cooper@churchinwales.org.uk](mailto:joe.cooper@churchinwales.org.uk)).

**F**amily ministry team | It is good that Naomi Wood has joined the Cathedral team to build up our ministry to children, young people and families. An initial focus for this ministry is a range of activities and crafts for children during the Cymun Bendigaid ar Gân and the Choral Holy Eucharist every Sunday; but we hope to expand this ministry to include our schools and other weekday events. If you would like to join the team of people in this important area, please speak to Naomi Wood ([naomiwood@churchinwales.org.uk](mailto:naomiwood@churchinwales.org.uk)).

**T**refnwyd blodau | Mae Urdd Flodau'r Gadeirlan yn chwilio am aelodau newydd. Bydd ei gyfarfod cynllunio hydref yn cael ei gynnal ddydd Iau am 11am yn Nhŷ Deiniol. Mae croeso i bawb yn y cyfarfod hwnnw. Fel arall, siaradwch â Canon Tracy Jones ([tracyjones@churchinwales.org.uk](mailto:tracyjones@churchinwales.org.uk)).

**G**weision Bwrdd yr Allor | Rydyn ni'n gobeithio adeiladu tîm o Weision Bwrdd yr Allor ar gyfer y Cymun Bendigaid ar Gân a'r Choral Holy Eucharist bob dydd Sul. Mae croeso i Weision o bob oed, a darperir hyfforddiant, amynedd a gras. Os hoffech chi archwilio hyn ymhellach, siaradwch â'r Is-Ddeon ([sionrhysEvans@eglwysyngnghymru.org.uk](mailto:sionrhysEvans@eglwysyngnghymru.org.uk)).

**C**efnogi atgyweiriadau i'r Eglwys Gadeiriol | Dros y misoedd i ddod, rydym yn wynebu costau atgyweirio sylweddol iawn. Bydd angen i ni wario £22,000 ar waith iechyd a diogelwch brys – disodli rhai gwifrau trydanol hynafol, gosod mân daclau golau newydd, a diogelu'r adeilad gyda system canfod Tân. Bydd angen i ni hefyd wario £18,000 ychwanegol ar waith strwythurol a gwaith adfer – gan atal treiddiad dŵr niweidiol pellach yn Nhŵr Skeffington a Thŵr Scott, ailaddurno wal yr eil ddeheuol, ac ail-baentio wynebau'r cloc a drysau'r Gadeirlan.

**F**lower arrangers | The Cathedral Flower Guild is seeking new members. Its autumn planning meeting takes place on Thursday at 11am in Ty Deiniol. All are welcome at that meeting. Alternatively, please speak to Canon Tracy Jones ([tracyjones@churchinwales.org.uk](mailto:tracyjones@churchinwales.org.uk)).

**S**ervers | We hope to build up a team of Servers for the Cymun Bendigaid ar Gân and the Choral Holy Eucharist every Sunday. Servers of all ages are welcome, and induction, patience and grace will be provided. If you'd like to explore this further, please speak to the Sub-Dean ([sionrhysEvans@churchinwales.org.uk](mailto:sionrhysEvans@churchinwales.org.uk)).

**S**upporting repairs to the Cathedral | Over the months ahead, we're facing very substantial repair costs to the Cathedral building. We will need to spend £22,000 on urgent health and safety work – replacing some ancient electrical wiring, installing new light fittings, and protecting the building with a fire detection system. We will also need to spend another £18,000 on structural and restoration work – preventing further damaging water penetration in the Skeffington Tower and the Scott Tower, redecorating the south aisle wall, and repainting the clock faces and the Cathedral doors.

Bydd ein holl gasgliadau ar gyfer misoedd Hydref a Thachwedd yn cael eu cyfeirio i gwrdd â'r costau angenrheidiol hyn. Os gallwch fynd y tu hwnt i'ch rhodd arferol i roi tuag at y gwaith yma, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

I sefydlu rhodd Debyd Uniongyrchol misol, gyda'r opsiwn i ychwanegu Cymorth Rhodd, chwiliwch ar-lein am "Eglwys yng Nghymru Rhoi yn Syth" a dewis "Bro Deiniol" o dan "Buddiolwr".

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

All our collections for the months of October and November will be directed to meet these necessary costs. If you are able to go above and beyond your usual giving to make a donation towards these works, please speak to a member of the Cathedral team.

To make an online donation on your phone today, scan the QR below.

To set up a monthly Direct Debit donation, with the option to add Gift Aid, search online for "Church in Wales Gift Direct" and select "Bro Deiniol" under "Beneficiary".

By making a donation, you'll be helping us to continue our essential work.

## *Cefnogwch Support*



# *Defodau Hydref a Thachwedd*

# *October and November observances*

## **3 Hydref | Diolchgarwch am y Cynhaeaf**

**3 October | Thanksgiving for the  
Harvest**

**8.15am**  
**Holy Eucharist**

**9.15am**  
**Cymun Bendigaid ar Gân**

Yr Is-Ddeon yn pregethu  
Mola di'r Arglwydd, "Lobe den  
Herren"  
Cymun y Cymry ii, Harper  
Salm 67  
Pob peth, ymhell ac agos, "Cynhaeaf"  
Mawr yw y wyrth, "Troyte"  
Tydi a wnaeth y wyrth,  
"Pantyfedwen"

**11am**  
**Choral Holy Eucharist**

The Sub-Dean preaching  
Praise to the Lord, "Lobe den Herren"  
Communion Service in C, Ireland  
Psalm 67  
We hail thy presence glorious,  
"Offertorium"  
Greater Love, Ireland  
Lord of beauty, "Regent Square"

**Yn dyddiol 4-9 Hydref**  
**Daily 4-9 October**

**12.30pm**  
Cymun Bendigaid | Holy Eucharist

## **10 Hydref | Y Pedwerydd Sul ar Bymtheg wedi'r Drindod**

**10 October | The Nineteenth  
Sunday after Trinity**

**8.15am**  
**Holy Eucharist**

**9.15am**  
**Cymun Bendigaid ar Gân**

Yr Is-Ddeon yn pregethu  
O tyred i'n gwaredu, "Bro Aber"  
Cymun Deiniol, Ogdon  
Salm 103:8-14  
Dof fel yr wyf, "Saffron Walden"  
Mawr yw y wyrth, "Troyte"  
Pa le, pa fodd dechreuaf, "Pen yr  
Yrfa"

**11am**  
**Choral Holy Eucharist**

The Canon for Congregational Life  
preaching  
Thou whose almighty word,  
"Moscow"  
Communion Service in F, Sumsion  
Psalm 103:8-14  
Just as I am, "Saffron Walden"  
Oculi Omnia, Wood  
O for a thousand tongues, "Lyngham"  
First movement, Sonata in G, Elgar



---

## **Yn dyddiol 11-16 Hydref**

Daily 11-16 October

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

---

## **17 Hydref | Yr Ugeinfed Sul wedi'r Drindod**

17 October | The Twentieth Sunday after Trinity

**8.15am**

**Holy Eucharist**

**9.15am**

**Cymun Bendigaid ar Gân**

Yr Is-Ddeon yn pregethu

Mae trugaredd Duw yn llydan,  
"Corvedale"

Offeren Glyn Rhosyn, Wynn Jones  
Salm 30:1-3

Rhyfeddol ras, "Amazing Grace"

Yr Arglwydd yw fy Mugail, Elwyn Edwards

Gariad dwyfol, "Blaenwern"

**11am**

**Choral Holy Eucharist**

The Sub-Dean preaching

There's a wideness in God's mercy,  
"Corvedale"

Communion Service in E, Darke  
Psalm 30:1-3

Amazing grace, "Amazing Grace"

The Lord is my Shepherd, Rutter  
Love divine, "Blaenwern"

---

## **Yn dyddiol 18-23 Hydref**

Daily 18-23 October

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

---

## **24 Hydref | Yr Unfed Sul ar Hugain wedi'r Drindod**

24 October | The Twenty First Sunday after Trinity

**8.15am**

**Holy Eucharist**

**9.15am**

**Cymun Bendigaid ar Gân**

Y Canon dros Fywyd Cynulledifaol yn pregethu

Bore a wawriodd, "Bunessan"

Offeren Deiniol, Rees

Salm 102:15-22

Tyrd atom ni, "Berwyn"

Greawdwr nef a daear lawr, Raymond Williams

Brwyda bob dydd, "Duke Street"

**11am**

**Choral Holy Eucharist**

**The Canon for Congregation Life preaching**

Christ, whose glory fills the skies,  
"Ratisbon"

Communion Service in B flat, Stanford  
Psalm 102:15-22

Be thou my vision, "Slane"

Beati quorum via, Stanford

Fight the good fight, "Duke Street"

Postlude in D, Stanford

---

## **Yn dyddiol 25-30 Hydref**

Daily 25-30 October

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

---

**31 Hydref | Gŵyl yr Holl Saint**  
31 October | The Feast of All  
Saints

**8.15am**  
**Holy Eucharist**

**9.15am**  
**Cymun Bendigaid ar Gân**

Y Canon Emeritus yn pregethu  
Am rif y saint, "Sine Nomine"  
Cymun Llan, Cooper  
Salm 145:3-13  
Na foed cydweithwyr Duw, "Darwall"  
Gwyn fydd y galon bur, Walford Davies  
Pwy yw'r rhain, "Cwm Rhondda"

---

**11am**  
**Choral Holy Eucharist**

The Canon Emeritus preaching  
For all the saints, "Sine Nomine"  
Short Communion Service, Batten  
Psalm 145:3-13  
At the Lamb's high feast we sing,  
"Salzburg"  
Worthy is the Lamb, Handel  
Give us the wings of faith, "Song 67"

---

**Yn dyddiol 1-3 Tachwedd**  
Daily 1-3 November

**12.30pm**  
**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

**4 Tachwedd | gan gadw Gŵyl yr**  
**Holl Eneidiau**  
4 November | keeping the Feast  
of All Souls

**5.30pm**  
**Cymun Bendigaid ar Gân Dros y**  
**Meirw | Choral Holy Eucharist of**  
**Requiem**

Yr Is-Ddeon yn pregethu | The Sub-  
Dean preaching  
Requiem, Fauré  
Iesu, cyfaill f'enaid i | Jesu, Lover of  
my soul, "Aberystwyth"

---

**Yn dyddiol 5-6 Tachwedd**  
Daily 5-6 November

**12.30pm**  
**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

**7 Tachwedd | Gŵyl Saint Cymru**  
**7 November | The Feast of the**  
**Saints of Wales**

**8.15am**  
**Holy Eucharist**

**9.15am**  
**Cymun Bendigaid ar Gân**  
Y Darllenyydd yn pregethu  
Molwn di, O Dduw ein tadau,  
"Hyfrydol"  
Offeren Fer, Palestrina  
Salm 145:3-13  
O Arglwydd, am dy saint, "Bod  
Alwyn"  
O quam gloriosum, Victoria  
Am bob sant, "Rhondda"

---

**11am**

**Choral Holy Eucharist**

**The Reader preaching**

The Church's one foundation,  
"Aurelia"

Missa "O quam gloriosum", Victoria  
Psalm 145:3-13

O thou who at thy Eucharist, "Song 1"  
O quam gloriosum, Victoria  
Forth in thy name, "Song 34"  
Prelude in C, Buxtehude

---

**Yn dyddiol 15-20 Tachwedd**

**Daily 15-20 November**

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

---

**21 Tachwedd | Gŵyl Crist y  
Brenin**

**21 November | The Feast of  
Christ the King**

**8.15am**

**Holy Eucharist**

**9.15am**

**Cymun Bendigaid ar Gân**

Yr Is-Ddeon yn pregethu  
Iesu, nid oes terfyn arnat,  
"Llwynbedw"

Missa Brevis "Capella Regalis",  
Caeser  
Psalm 126

Arglywydd Iesu Grist, "Living Lord"  
Cydganed Pawb, Vaughan Williams  
Mawr oedd Crist, "Bryn Myrddin"

**11am**

**Choral Holy Eucharist**

**The Sub-Dean preaching**

Christ is the King, "Vulpius"  
Communion Service in D, Leighton  
Psalm 126

Lord enthroned in heavenly  
splendour, "St Helen"  
Let all the World, Leighton  
Rejoice the Lord is King, "Gopsal"  
First movement, Symphony II, Vierne

---

**Yn dyddiol 22-27 Tachwedd**

**Daily 22-27 November**

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

---